**Pwyllgor Diwylliant – CC-15-01(p.6)**

**Dyddiad:** 24ain Hydref 2001

**Amser:** 10.00am-13.00pm

**Lleoliad:** Neuadd Brangwyn, Abertawe

**DS: Mae'r papur hwn ar gael yn Gymraeg yn unig**

# Adolygiad Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r Iaith Gymraeg

**Ymateb Canolfan yr Eglwysi ar Gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP.**

**029 2025 5506. E-bost: eglwysi@nationalassembly.freeserve.co.uk**

## (1) Cyflwyniad

Cyflwynir yr adroddiad hwn gan ***Ganolfan yr Eglwysi ar Gyfer y Cynulliad Cenedlaethol***. Mae'r Ganolfan yn gwasanaethu **CYTÛN** (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru), sef: Y Gynghrair Gynulleidfaol, Byddin yr Iachawdwriaeth, Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, Eglwysi y Bedyddwyr Cyfamodol, Yr Eglwys Fethodistaidd, Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Eglwys yng Nghymru.

Mae nifer o eglwysi wedi penodi arweinyddion neu staff penodol i oruchwilio materion sy'n ymwneud a'r iaith Gymraeg. Penododd yr Eglwys Gatholig yr Esgob Daniel Mullins i oruchwiliaeth o'r fath.

Byddai sawl un yn dadlau, yn nhermau hanes, na fyddai'r Gymraeg yn fyw heddiw oni bai am ei pherthynas â'r ffydd Gristnogol. Bu'r Beibl Cymraeg, y Llyfr Gweddi Gyffredin, emynau'r genedl a chyfraniad parhaol capel a llan yn gorwedd wrth hanfod parhad yr iaith.

Rhyngddynt, mae gan yr eglwysi a enwir uchod brofiad helaeth o wasanaethu cymunedau ieithyddol y Gymru gyfoes. Mae CYTÛN fel corff eglwysig yn arddel polisi gwbl ddwyieithog ac mae'r eglwysi, mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnal ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg ym mhob rhan o Gymru – boed hynny'n wledig neu'n drefol.

Dengys yr ystadegau cenedlaethol diweddaraf, yngln ag addoliad ar y Sul, bod eglwysi Cymru yn arddel patrwm ieithyddol amrywiol a chyfoethog. Defnyddir y Gymraeg yn unig yn 35% o'r eglwysi, Saesneg yn unig yn 51% o'r eglwysi, ac mae 10% pellach yn addoli'n ddwyieithog. Bydd y 4% sy'n weddill yn cynnal rhai gwasanaethau Cymraeg a rhai yn Saesneg. Mewn ardaloedd poblog, gwelwyd yr eglwysi yn gwasanaethu nifer o gymunedau ethnig lleiafrifol. Cynhelir gwasanaethau mewn ieithoedd fel Lladin, Norwyeg, Groeg a Chantonieg.

**(2) Dogfennau CYTÛN a'r Iaith Gymraeg**

Ar dro'r ganrif ddiwethaf, cyhoeddodd CYTÛN dwy ddogfen sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â chwestiwn yr iaith Gymraeg. Cyfeirir atynt fel dogfennau cefndirol gwerthfawr yng nghyswllt cylch gorchwyl ymgynghoriad presennol Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol yn arbennig mewn meysydd sy'n ymwneud â: gallu unigolion i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall, chefnogi'r Gymraeg fel iaith y teulu a'r gymuned, darparu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg a'i defnyddio a hyrwyddo parch cyfartal tuag at y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal y consensws a'r ewyllys da genedlaethol at ddwyieithrwydd.

Mae ***Cymru: Cymdeithas Foesol*** (Mehefin 1996) yn cynnig ymateb ecwmenaidd i rai materion moesol yng Nghymru. Trafodwyd cwestiynau allweddol fel: teulu a chydberthynas, addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol, tai a'r digartref, gwaith a pholisi economaidd a threfn llywodraeth.

Yn Chwefror 1997, cyhoeddodd yr eglwysi ddogfen, ***Iaith a Diwylliant Cymru**,* dan nawdd *Gomisiwn Cytun ar Gymru a'r Byd.* Hon yw'r unig ddogfen o eiddo'r holl eglwysi, trwy CYTÛN, sy'n trafod mewn modd uniongyrchol yr iaith Gymraeg a gofynion y gymdeithas amlieithog Gymreig. Gofynnwyd i'r gweithgor a fu'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad a fyddai'n:

- Gosod sylfaen athrawiaethol/ddiwinyddol dros bwysigrwydd y Gymraeg.
- Chwilio'r sylfeini moesol dros gydberthynas mewn cymdeithas amlieithog.
- Chwilio ffyrdd i'r eglwysi gydweithio â'i gilydd i hyrwyddo'r Gymraeg yng nghyswllt gwaith yr hyn a ystyrir yw Teyrnas Dduw yng Nghymru
- Ystyried problemau ymarferol sy'n rhwystro hybu'r iaith, gan gynnwys barnau a rhagfarnau amrywiol, ac argymell sut y gallai'r eglwysi fynd i'r afael a'r rhain.
- Awgrymu sut y gall yr eglwysi hybu iaith a diwylliant Cymru.

**(3) Iaith a Ffydd**

Wrth drafod yr hyn a ddywed y Beibl am iaith, tarddiad cenhedloedd a nodweddion cenedl, daw ***Iaith a Diwylliant Cymru*** (1997) i nifer o gasgliadau sy'n llywio ac yn cyfarwyddo ymateb rhan helaeth o'r traddodiad Cristnogol yng Nghymru i ofynion y rhai hynny sy'n arddel ac yn ymarfer yr iaith Gymraeg.

Yn allweddol, awgrymir taw nid ffrwyth gweithgarwch dynol yw iaith ond gweithgarwch sy'n dwyn sêl bendith Duw. Yng nghyswllt y Testament Newydd, nodwyd taw trwy gyfrwng mamiaith ei genedl ei hun, Aramaeg, y dewisodd Iesu ddysgu ei ddisgyblion a phregethu i'w gydwladwyr. I nifer o eglwysi, mae mater yr iaith yn ymwneud yn uniongyrchol â ffydd.

**(4) Iaith a Chenedl**

Daeth ***Iaith a Diwylliant Cymru*** (1997) i drafod ac i ddyfynnu sylwadau Emrys ap Iwan. Ni fyddai holl eglwysi Cymru yn gosod yr un pwyslais ar gyfraniad diwinyddol Emrys ap Iwan, ond mae'n mynnu lle anrhydeddus yn arbennig ymysg yr enwadau hynny sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yn hanes Cymru a'r cymunedau hynny sy'n arddel yr iaith Gymraeg yn eu bywyd a'u cenhadaeth. Daw'r un dyfyniad hwn at graidd ei ddadl ddiwinyddol ynghylch cenedl a iaith :

> Cofiwch yn mlaenaf eich bod yn ddynion, o'r un gwaed a'r Saeson a'r Bwyriaid a'r Caffiriaid a'r Sineaid; am hynny byddwch barod i roddi iddynt hwy bob braint a fynnech ei chael i chwi eich hun, Cofiwch, yn ail, eich bod yn genedl, trwy ordeiniad Duw; am hynny, gwnewch yr hyn a alloch i gadw'r genedl yn genedl, trwy gadw'i hiaith, a phob peth gwerthfawr arall a berthyno iddi…Gan i Dduw eich gwneuthur yn genedl, ymgedwch yn genedl; gan iddo gymeryd miloedd o flynyddoedd i ffurfio iaith gyfaddas ichwi, cedwch yr iaith honno; canys wrth gydweithio â Duw yn ei fwriadau tu ag atoch, bydd yn haws ichwi ei gael wrth ei geisio... ['Y Ddysc Newydd' a'r Hen, Homilïau (1906), 41-53].

**(5) Creu Cenedl Ddwyieithog**

Gwnaeth ***Iaith a Diwylliant Cymru*** (1997) dri chyfraniad pwysig i fywyd a chenhadaeth yr eglwysi:

- Galluogi Cristnogion yng Nghymru, Cymraeg a Saesneg eu hiaith, gan gynnwys y rhai sydd newydd symud i fyw yng Nghymru, i werthfawrogi'n llawnach arwyddocâd yr iaith Gymraeg a'i lle yn natblygiad Cymru, a bod yn fwy effeithiol mewn tystiolaeth Gristnogol gyfoes.
- Awgrymu ffyrdd i'r eglwysi ymateb i natur ddwyieithog y gymdeithas Gymreig, hyd yn oed mewn ardaloedd traddodiadol Cymraeg. Tybiwyd bod gwir angen am hyn os yw'r holl eglwysi i'w gwreiddio oddi fewn i'r gymdeithas Gymreig gyfoes, ac adlewyrchu ei hanghenion a'i gobeithion yn eu bywyd a'u haddoliad.
- Rhoi cyfle i Gristnogion y tu allan i Gymru i werthfawrogi ychydig o'r cyfoeth sydd â'r

gael i'r eglwysi, yn y cenhedloedd hyn ac yn fyd-eang, drwy'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Ar y cyfan, felly, mae eglwysi Cymru'n rhannu dyhead y Cynulliad Cenedlaethol i greu Cymru ddwyieithog ac yn gwerthfawrogi'r cyfle a gynigir gan yr adolygiad hwn i awgrymu strategaeth bendant o'r camau tuag at gyflawni'r nod honno.

**Strategaeth ar Gyfer Creu Cymru Ddwyieithog**

1. **Deddf Iaith Newydd** – Mae nifer o eglwysi (Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru) wedi gofyn am Ddeddf Iaith newydd fyddai'n gwneud Cymraeg a Saesneg yn ieithoedd swyddogol yng Nghymru.

   Mynegwyd yr argyhoeddiad hwn yn fwyaf arbennig gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ystod Cymanfa Gyffredinol 2001. Nodwyd nad yw'r Ddeddf bresennol yn corffori darpariaeth sy'n gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

   Nid yw'r Ddeddf bresennol yn gosod unrhyw gyfrifoldeb ieithyddol ar y corfforaethau gwladol a breifateiddiwyd, cyrff megis y byrddau dwr, trydan a'r rheilffyrdd. Gan fod y cyrff a breifateiddiwyd yn darparu gwasanaethau hanfodol i'r dinesydd a gwasanaethau sydd o natur monopolistig ni ddylid eu heithrio rhag cyfrifoldebau deddf iaith. Nid yw'r Ddeddf ar hyn o bryd yn rhoi'r hawl i'r dinesydd sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ei ymwneud â chorff cyhoeddus i wneud hynny yn absenoldeb Cynllun Iaith.

   Yn ogystal, gwêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru nad yw'r Ddeddf bresennol yn caniatáu dewis rheithwyr sy'n deall Cymraeg a chafwyd yr argyhoeddiad y dylai bob plentyn ag ieuenctid dan 16 oed, sy'n siarad Cymraeg, dderbyn yr hawl i gael unrhyw achos gyfreithiol am gamdriniaeth yn ei erbyn neu y mae ef neu hi yn barti i'w gynnal yn yr iaith Gymraeg. Trafodwyd hyn yn sgil cam-drin plant yn hen siroedd Clwyd a Gwynedd.

   Credir y dylid rhoi hawl i bob achwynydd dderbyn iawndal gan gorff cyhoeddus pan ddioddefodd sarhad neu golled uniongyrchol oherwydd methiant y corf cyhoeddus i weithredu ei gynllun iaith.

   Yn ddiweddar, mynegodd nifer o arweinyddion eglwysig eu hanniddigrwydd ynghylch amharodrwydd neu fethiant y ***Criminal Records Bureau*** yn Lerpwl i ddarparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn a phrydlon.

   Credir hefyd y dylai bod gan bawb mewn carchar, canolfan cadw neu unrhyw sefydliad cyffelyb a weinyddir gan yr Ysgrifennydd Cartref yr hawl i gynnal cyfweliadau a pherthnasau ac eraill yn Gymraeg; yr hawl i dderbyn a danfon gohebiaeth yn y Gymraeg ac i dderbyn llyfrau a ffilmiau Cymraeg, a'r hawl i dderbyn gwasanaeth caplan Cymraeg.

2. **Comisiwn** – Mae rhai eglwysi (Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg) yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu Comisiwn (yn annibynnol o'r Cynulliad) i ymchwilio'n ofalus i'r achosion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr argyfwng yn y cymunedau Cymraeg eu hiaith, ac i argymell ffyrdd a mesurau y mae angen eu mabwysiadu er mwyn diogelu'r cymunedau hyn.
3. **Comisiwn Brenhinol** – Ym Medi 2001 galwodd Y Parchedicaf Rowan Williams, Archesgob Cymru, am Gomisiwn Brenhinol i drafod dyfodol cefn gwlad yn benodol yn sgil clwy'r traed a'r genau. Nodir bod mwyafrif y broydd hynny sy'n arddel yr iaith Gymraeg i'w canfod mewn ardaloedd gwledig ac fe gyfeiriodd yr Archesgob at gyfanrwydd y bywyd gwledig Cymreig: "Yn ogystal ag adolygiad difrifol o sut y cafodd yr argyfwng hwn ei drafod, rydym angen rhywbeth fel comisiwn Brenhinol ar ddyfodol cefn gwlad fydd yn edrych ar faterion amrywiol sy'n gysylltiedig - cynhyrchu bwyd, y diwylliant dynol ac anghenion cymunedau amaethyddol, yr angen brys am farchnata cydweithredol mwy lleol (megis yn Ffrainc), cyfleoedd a risgiau twristiaeth a chwestiwn enfawr cyfrifoldeb amgylcheddol tymor hir".
4. **Cynllunio** – Byddai nifer o eglwysi, fel Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru, yn pwyso ar y Cynulliad Cenedlaethol i gymryd camau deddfwriaethol buan i hybu gallu pobl leol i adeiladu, rhentu, prynu ac addasu tai. Eisoes, cafwyd polisïau o'r fath yn Ardal y Llynnoedd a bwriadau cadarnhaol ar ran Parc Cenedlaethol Exmoor.
5. **Safon y Drafodaeth –** Gresynodd Adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru bod rhai yn ystyried galwadau am bolisïau cynllunio sy'n ffafrio pobl leol yn 'hiliol'. Cafwyd galwadau cyffelyb mewn broydd gwledig eraill yn y Deyrnas Gyfunol ac ni chafodd cyrff fel Parc Cenedlaethol Exmoor eu dyfarnu'n 'hiliol' am gynnig polisïau fyddai'n ffafrio pobl leol yn y farchnad dai.

> Teg hefyd, yn hyn o beth, i'w dweud i rai arweinyddion eglwysig fynegi pryder cyhoeddus yngln â geiriad ambell drafodaeth a gafwyd yn ddiweddar ar ddyfodol y broydd Cymraeg. Yn dilyn datganiadau cyhoeddus ar sefyllfa'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cylch, gofynnodd Y Parchedicaf Rowan Williams, Archesgob Cymru am ofal: "Bu'r protestiadau yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ac yn wir dros y misoedd diwethaf yn fodd i dynnu sylw at bwnc o gonsýrn gwirioneddol ac at faterion y mae gwir angen mynd i'r afael â hwynt. Eto i gyd, yn anffodus bu natur eithafol yr iaith a ddefnyddiwyd wrth fynegi'r pryderon hyn ac wrth fynd i'r afael â'r drafodaeth yn fodd i dynnu sylw oddi wrth y materion gwirioneddol bwysig megis y trafferthion sy'n nodweddu economi gweledig Cymru a'r bygythion difrifol sy'n wynebu cymunedau Cymraeg eu hiaith. Rwy'n sïwr taw nid y bwriad unrhyw un sydd wedi cyfrannu i'r drafodaeth oedd i'w sylwadau gael eu dehongli fel rhai hiliol. Rwy'n sïwr hefyd fod 'na neb hyd yma yn ceisio hybu rhagfarn neu drais yn erbyn unrhyw berson o garfan ieithyddol arall. Eto i gyd, mae'r iaith sydd wedi ei defnyddio wedi rhoi cocyn hitio i'r rhai hynny sy'n ceisio bychanu'r ystyriaethau pwysig hyn."

Cyflwynwn y sylwadau hyn yn y gobaith y byddant o gymorth i'r Pwyllgor Diwylliant, a maes o law, i'r Weithrediaeth wrth iddi bennu polisi. Gobeithiwn y bydd modd gwneud hynny'n fuan yn nhermau deddfu eilaidd yn y Cynulliad a phwyso am ddeddfu sylfaenol angenrheidiol yn San Steffan.

Y Parchedig Peter Dewi Richards

**Llywydd CYTUN**

Y Parchedig Gethin Abraham Williams

**Ysgrifennydd Cyffredinol CYTUN**

Manylion pellach gan Y Parchedig Aled Edwards, Canolfan yr Eglwysi ar Gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP. 029 2025 5506. E-bost: eglwysi@nationalassembly.freeserve.co.uk